IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2023

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Driscoll a/ac Palmer |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 : CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED SAFLE - GREEK VILLAGE, STRYD CAROLINE

Yn Bresennol

Ymgeiswyr: Cynrychiolwyd gan Mohammad Rahman

Awdurdodau Cyfrifol: Cwnstabl Will Tapper, Heddlu De Cymru
Tony Bowley, Heddlu De Cymru
Tomos Jenkins, Rheoli Llygredd
Rhys Morgan, Trwyddedu

Y Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Greek Village 1 Limited mewn perthynas â Greek Village, 21 Stryd Caroline, Caerdydd

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodir gan yr ymgeisydd):
"Bwyty a chludfwyd Groegaidd yn unol â'r cynllun atodedig. Ni fydd unrhyw newid i'r oriau pryd y caniateir i'r safle werthu alcohol ar hyn o bryd".

(2) Mae'r cais yn cynnig y canlynol:

i) Caniatáu darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do) yn ystod yr oriau canlynol:

Dydd Gwener - Dydd Sul: 11:00pm i 4:00am

ii) Diwygio'r oriau agor o ddydd Gwener i ddydd Sul o 11:00pm i 4:00am.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Rahman y cais. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y cais yn ceisio amrywio'r drwydded bresennol. Roedd Mr Rahman o'r farn bod Adran 16 i 18 o'r ffurflen gais, fel y manylwyd yn yr adroddiad, yn nodi sut y byddai'r ymgeisydd yn cefnogi ac yn cynnal yr amcanion trwyddedu.

Ar ôl derbyn e-bost gan Heddlu De Cymru mae'r ymgeisydd wedi nodi y byddent yn cytuno i gwtogi'r oriau gweithredu o 4:00am i 2:00am.

Dywedodd Mr Rahman fod y busnes yn wynebu heriau oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol ac y byddai'r oriau ychwanegol yn eu cefnogi'n ariannol. O 11:00pm, byddai'r busnes yn darparu gwasanaeth cludfwyd yn unig ac ni fyddai cwsmeriaid yn cael aros a bwyta bwyd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod tua 15 i 20 o gwsmeriaid yr awr ar hyn o bryd rhwng 9:00pm ac 11:00pm.

Cynigiodd yr ymgeisydd ddarparu hyfforddiant Awdurdod y Diwydiant Diogelwch i ddau aelod o staff a chyfarwyddwr cwmni er mwyn rheoli cwsmeriaid sy'n ciwio yn y safle.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, roedd Mr Rahman o'r farn bod y gwasanaeth a gynigir gan y safle yn eithriadol gan ei fod yn cynnig bwyd a oedd yn wahanol i unrhyw gynnig arall yn yr ardal. Roedd yr ymgeiswyr yn brofiadol iawn yn y fasnach ac maent yn gweithredu safle arall mewn rhan arall o'r ddinas heb ddigwyddiad.

Sylwadau’r Awdurdod Cyfrifol

Fe wnaeth Cwnstabl Will Tapper o Heddlu De Cymru annerch yr Is-bwyllgor. Esboniodd Cwnstabl Tapper ei rôl a dywedodd iddo gael gwybod am y cais am y tro cyntaf ar 12 Mai 2023. Wedi hynny cyfarfu â'r ymgeiswyr yn y safle ac eglurodd wrthynt fod y safle wedi'i leoli o fewn yr ardal polisi effaith gronnol ac, o ran safle cludfwyd poeth, ei fod yn dod o fewn y categori 'coch'. Rhoddwyd gwybod i'r ymgeiswyr am bryderon Heddlu De Cymru gan fod yr ardal yn ddirlawn o bobl ac roedd y ciw yn fflachbwynt o ran trosedd ac anhrefn o bosib yn digwydd.

E-bostiodd Cwnstabl Tapper yr ymgeiswyr ar 6 Mehefin 2023 a derbyniodd ateb i nifer o gwestiynau. Anfonodd e-bost eto ar 15 Mehefin 2023 gyda chwestiynau pellach ac nid yw'r e-bost hwnnw wedi derbyn ateb hyd yma.

Roedd Cwnstabl Tapper o'r farn bod yr eiddo wedi'i leoli mewn ardal danllyd a phe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu, byddai'n ychwanegu'n negyddol at effaith gronnol ardal sy'n orlawn o safleoedd trwyddedig. Ystyriwyd bod y mesurau a gyflwynwyd gan y ceisiadau i gynnal yr amcanion trwyddedu yn annigonol.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, ers agor tua 8 mis yn ôl, nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r safle. Fodd bynnag, mae lefelau uchel o drosedd ac anhrefn yn yr ardal. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor weld nifer o glipiau lluniau TCC oedd yn amlygu'r mathau o ddigwyddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys ymosodiadau, anhrefn ac unigolyn oedd â chyllell mewn eiddo cludfwyd yng nghanol y ddinas. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod staff ag hyfforddiant Awdurdod y Diwydiant Diogelwch weithiau'n bresennol pan fydd y digwyddiadau hyn.

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried gwrthod y cais yn llwyr.

Gofynnodd Mr Rahman i Gwnstabl Tapper a allai ddarparu tystiolaeth o ddigwyddiadau yn ystod y dydd.

Wrth ymateb i'r cwestiwn gan Mr Rahman, dywedodd Cwnstabl Tapper na chyflwynwyd tystiolaeth ynghylch digwyddiadau yn yr ardal yn ystod y dydd oherwydd bod y cais yn ceisio amrywio'r drwydded i werthu bwyd poeth rhwng 11:00pm a 4:00am ac felly nid oedd digwyddiadau yn ystod y dydd yn berthnasol i'r cais.

Roedd Cwnstabl Tapper o'r farn y gallai staff Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ymyrryd ar adegau ac atal trosedd ac anhrefn rhag digwydd. Serch hynny, er bod staff sydd wedi'u hyfforddi o ran yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn ddefnyddiol, nid ydynt yn gallu atal pob digwyddiad.

Anerchodd Tomos Jenkins yr Is-bwyllgor ar ran Rheoli Llygredd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y cais wedi cael ei ystyried o dan yr amcan trwyddedu niwsans cyhoeddus. Mae Rheoli Llygredd yn ystyried y byddai sŵn gan gwsmeriaid yn arwain at ddwysáu niwsans sŵn yn y cyffiniau. Mae nifer o breswylfeydd sydd o fewn clyw i'r safle. Dywedodd Tomos Jenkins fod y polisi ardal effaith gronnol yn berthnasol ac nad yw'r cais yn mynd i'r afael â phryderon niwsans cyhoeddus.

Clywodd yr aelodau fod ymweliad safle wedi ei wneud i'r safle. Caniateir i gwsmeriaid fynd i mewn i'r safle, archebu bwyd wrth y cownter ac yna gadael. Dywedodd y cais na fyddai'r cwsmeriaid yn cael eu caniatáu ar y safle wedi 11:00pm ond roedd Tomos Jenkins o'r farn mai'r bwriad oedd peidio caniatáu i gwsmeriaid aros ar y safle i fwyta bwyd.

Byddai Rheoli Llygredd yn dal i wrthwynebu unrhyw amrywiad i'r drwydded a oedd yn caniatáu i'r safle weithredu tan 2:00am. Fel lleiafswm, byddai disgwyl i gynllun rheoli digonol sy'n nodi sut y byddai'r ciw yn cael ei reoli fod yn ei le. Nid oedd cynllun rheoli yn rhan o'r cais.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai Rheoli Llygredd yn gwrthwynebu'r cais pe bai cynllun rheoli ar waith. Dywedodd Tomos Jenkins, er y byddai cynllun rheoli yn cynorthwyo staff i reoli'r safle ac yn darparu asesiad i swyddogion, y byddai'r cais yn arwain at ddwysáu niwsans cyhoeddus ac mae Rheoli Llygredd yn gwrthwynebu amrywio'r drwydded.

Dywedodd Rhys Morgan o Dîm Trwyddedu Caerdydd bod y cais wedi ei asesu ar y sail bod y safle yn un cludfwyd wedi'i leoli o fewn yr ardal polisi effaith gronnol. Mae’r eiddo’n dod o fewn y categori gradd ‘coch’ ac felly dylid cymhwyso’n llawn y rhagdybiaeth wrthbrofadwy y byddai’r cais i amrywio’r drwydded yn cael ei wrthod.

Dywedodd Rhys Morgan fod Stryd Caroline â phoblogaeth ddwys rhwng 11:00pm a 4:00am. Mae nifer fawr o bobl feddwol yn aml yn yr ardal, a gwyddys bod hyn yn arwain at drosedd ac anhrefn a phroblemau niwsans cyhoeddus i ddigwydd. Felly, roedd yn naïf i'r ymgeisydd awgrymu, gan fod nifer y cwsmeriaid yn y safle yn isel, yna ni fyddai unrhyw effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu. Byddai rheoli ciwiau yn hanfodol i oresgyn problemau posibl.

Roedd Rhys Morgan o'r farn nad oedd y cais yn cyrraedd y safon eithriadol ac roedd manylion unrhyw bolisïau a gweithdrefnau i'w cymhwyso i gynnal yr amcanion trwyddedu yn ddiffygiol. Felly, dylid gwrthod y cais.

<u>I Grynhoi</u>

Ailadroddodd Cwnstabl Tapper fod Heddlu De Cymru wedi gwrthwynebu'n llwyr i roi'r amrywiad gan y byddai'n ychwanegu at drosedd ac anhrefn ac yn tanseilio'r amcanion trwyddedu.

Roedd Tomos Jenkins o'r farn bod y polisi effaith gronnol yn berthnasol ac ychydig iawn a gynigiwyd o ran lliniaru pryderon gan yr ymgeiswyr mewn perthynas â niwsans cyhoeddus.

Dywedodd Rhys Morgan fod y Polisi Effaith Gronnol yn berthnasol ac nad oedd digon o fanylion yn cael eu cynnig i ddechrau ystyried gwyro oddi wrth y polisi.

Gofynnodd Mr Rahman i'r Aelodau gyfeirio at yr amodau a gynigiwyd a sut y byddai'r ymgeiswyr yn cynnal yr amcanion trwyddedu.

PENDERFYNWYD - Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn GWRTHOD y cais.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor nad oedd y cais wedi goresgyn y rhagdybiaeth wrthbrofadwy y dylid gwrthod y cais ac y dylid cymhwyso'r Polisi Effaith Gronnol.

3 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - CLWB CYMDEITHASOL LYNDON, CLARE ROAD, GRANGETOWN

Yn Bresennol

Ymgeiswyr: Miss Rachel Fitzgerald a Mr Patel wedi'u cynrychioli gan Cameron Paterson

Pobl Eraill â Diddordeb: Judit Molnar

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Rachel L Fitzgerald mewn perthynas â Chlwb Cymdeithasol a Sefydliad Lyndon, 109-111 Heol Clare, Grangetown, Caerdydd.

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â’r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:
(ii) Darparu adloniant wedi’i reoleiddio ar ffurf ffilmiau (dan do), cerddoriaeth fyw (dan do), cerddoriaeth wedi’i recordio (dan do) ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (dan do)
(iii) Darparu lluniaeth gyda’r hwyrnos (dan do ac awyr agored).

(2) Disgrifiad o’r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd): "Mae'r clwb yn cynnwys: Dau lawr

Llawr gwaelod: Prif fynedfa/allanfa i Heol Clare. Ystafell cynllun agored sy'n

cynnwys bar, cegin arlwyo gyda lifft llestri, gyda seddau sefydlog a symudol ynghyd â seddi sy'n plygu wedi'u gosod ar waliau. Mae hefyd yn elwa o ardal eistedd sefydlog uwch.  Toiledau i ddynion a menywod  Ardal y tu allan ar gyfer ysmygu. Mynedfa/allanfa ochr i Universal Street ac allanfa frys yn y cefn i mewn i lôn gefn hygyrch. Mae yna 7 set o oleuadau argyfwng a 4 diffoddwr tân.

Llawr cyntaf:
Ceir mynediad trwy risiau sy'n arwain o'r llawr gwaelod. Ystafell cynllun agored sy'n cynnwys bar a lifft llestri, gyda seddau sefydlog drwyddi draw. Toiledau i ddynion a menywod  Mae allanfa frys sy'n arwain at risiau i'r ardal ysmygu ar y llawr gwaelod ac i ofod y to. Mae yna 3 set o oleuadau argyfwng a 2 diffoddwr tân.   Mae yna hefyd fflat preswyl sy'n hygyrch o'r llawr cyntaf, nad yw'n rhan o'r cais am drwydded safle.

Gan fod gan y safle fantais o gegin arlwyo, mae'r ymgeisydd yn bwriadu gallu cynnig bwyd o'r awr agor hyd at 1 awr cyn yr amser cau, yn ôl y galw.

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Dydd Sul i ddydd Iau: 8:00am i 1:00am
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 8:00am tan 2:00am
Dydd Iau Cablyd: 8:00am i 2:00am
Dydd Sul cyn Gŵyl y Banc: 8:00am tan 2:00am Noswyl Nadolig: awr ychwanegol
Nos Galan: 8:00am tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

(4) Cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:
Dydd Sul i ddydd Iau: 8:00pm i 0:30am
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 8:00am i 1:30am
Dydd Iau Cablyd: 8:00am i 1:30am
Dydd Sul cyn Gŵyl y Banc: 8:00am i 1:30am
Noswyl Nadolig: awr ychwanegol
Nos Galan: 8:00am tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

(ii) Darparu adloniant rheoledig ar ffurf ffilmiau (dan do), cerddoriaeth fyw (dan do), cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do) ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (dan do):

Dydd Sul i ddydd Iau: 8:00am i 0:30am
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 8:00am i 1:30am
Dydd Iau Cablyd: 8:00am i 1:30am
Dydd Sul cyn Gŵyl y Banc: 8:00am tan 1:30am Noswyl Nadolig: awr ychwanegol
Nos Galan: 8:00am tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

(iii) Darparu adloniant rheoledig ar ffurf ffilmiau (dan do) ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (dan do):

Dydd Sul i ddydd Iau: 11:00pm i 0:30am
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 11:00pm i 1:30am
Dydd Iau Cablyd: 11:00pm i 1:30am
Dydd Sul cyn Gŵyl y Banc: 11:00pm i 1:30am Noswyl Nadolig: awr ychwanegol
Nos Galan: 11:00pm tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

(iv) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do).

Dydd Sul i ddydd Iau: 11:00pm i 0:30am
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 11:00pm i 1:30am
Dydd Iau Cablyd: 11:00pm i 1:30am
Dydd Sul cyn Gŵyl y Banc: 11:00pm i 1:30 am
Noswyl Nadolig: awr ychwanegol
Nos Galan: 11:00pm tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Cameron Paterson y cais. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod trafodaethau helaeth wedi digwydd gyda Heddlu De Cymru a Rheoli Llygredd. Gwirfoddolwyd a chytunwyd ar nifer o amodau ac roedd yr awdurdod cyfrifol wedi cytuno i dynnu eu sylwadau yn ôl o ganlyniad.

Derbyniwyd cynrychiolaeth hefyd gan drigolion lleol. Dywedodd Cameron Paterson ei fod wedi anfon e-bost at y preswylydd i egluro'r gweithrediad a'r amodau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdodau cyfrifol.

Eglurodd Mr Paterson bwrpas y cais yn gryno, er ei fod yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau arno, yn hytrach nag ailadrodd y cais oedd yn yr adroddiad.
Sylwadau Unigolion Eraill

Dywedodd Mrs Molnar ei bod yn poeni bod y cais yn ceisio gwerthu alcohol o 8:00am. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau ei bod yn cerdded heibio'r safle wrth fynd â'i phlant i'r ysgol ac oddi yno ac nad oedd am iddynt weld pobl yn yfed alcohol. Roedd cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio hefyd yn destun pryder.

Dywedodd Mr Paterson ei fod wedi ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan Ms Molnar yn ei e-bost. Eglurodd nad oedd unrhyw yfed yn cael ei ganiatáu y tu allan i'r safle ar unrhyw adeg ac y byddai hyn yn amod y drwydded pe bai'n cael ei roi. Roedd angen adroddiad acwstig hefyd gan Reoli Llygredd a fyddai angen bodloni eu gofynion.

Dywedodd Mrs Molnar nad oedd hi'n ymwybodol o'r e-bost gan Mr Paterson. Dywedodd Mrs Molnar ei bod am dynnu ei chynrychiolaeth yn ôl.

PENDERFYNWYD – Gan fod yr Is-bwyllgor wedi ystyried yr holl wybodaeth, ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, WEDI CANIATÁU'r cais, gyda'r amodau y cytunwyd arnynt gyda South. Heddlu Cymru a Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd

4 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm